

Ysgol Bro Idris



Polisi Asesu a Sicrhau Ansawdd y Ganolfan

Mawrth 2021

Mae'r polisi yma wedi ei gymeradwyo gan y llywodraethwyr.

Mae'r polisi yma wedi ei drafod a'i gymeradwyo gan ysgolion Meirionnydd.

Polisi Asesu Canolfan

Enw'r ganolfan:	Ysgol Bro Idris
Rhif y ganolfanr:	68440
Polisi wedi ei fabwysiadu gan y llywodraethwyr:	23/3/2021
Polisi wedi ei gyflwyno i staff:	23/3/2021
Aelod staff sy'n gyfrifol am y polisi:	Jano Owen Melanie Cooper

*Noder y gall y polisi hwn gael ei ddiwygio wrth i fwy o wybodaeth gael ei rhannu gan y bwrdd arholi; Cymwysterau Cymru a'r Llywodraeth.

Canllawiau CBAC: Wrth gyflwyno eu polisi fel yr amlinellir yn llyfryn canllawiau a gofynion CBAC, rhaid i ganolfannau sicrhau bod y saith maes a nodir wedi'u cynnwys. Nid oes rhaid i ganolfannau strwythuro eu polisi gan ddefnyddio penawdau CBAC ar gyfer pob un o'r saith maes. Yr unig ofyniad yw bod y polisi yn rhoi sylw i'r saith maes. Er hynny, gall rhai canolfannau ddewis cwblhau'r templed Word hwn, ond nid oes rheidwydd arnynt i wneud hynny.

Datganiad o Fwriad

Pwrpas Polisi'r Ganolfan yw:

- Sicrhau bod y Graddau a Bennir gan y Ganolfan (GBG) yn cael eu cynnal yn deg, yn gyson, heb unrhyw duedd ac yn effeithiol o fewn adrannau, ac ar draws adrannau, a hynny drwy gydol y broses.
- Sicrhau bod prosesau effeithiol yn cael eu gweithredu yn unol â chanllawiau a chymorth clir i staff.
- Sicrhau bod pob aelod staff sydd yn rhan o'r broses yn deall yn union beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau.
- Cefnogi athrawon i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn unol â gofynion Cymwysterau Cymru.
- Cyflawni safon uchel o ran sicrhau ansawdd mewnol wrth ddyrannu GBG
- Gofalu bod y Ganolfan yn cyflawni ei chyfrifoldebau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb ac anabledd.
- Gofalu bod y Ganolfan yn cyflawni ei chyfrifoldebau a nodir yn yr Amodau Rheoleiddio Arbennig, a chyfarwyddiadau y Cyd-Gyngor Cymwysterau a Chyrff Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Haf 2021.

Cyfrifoldeb pawb sydd yn rhan o gynhyrchu'r Graddau a Bennir gan y Ganolfan fydd darllen, deall a gweithredu'r polisi.

Cynnwys y Polisi:

1. Rolau a chyfrifoldebau a Dyddiadau Allweddol
2. Cynlluniau Asesu Pynciol
3. Asesiadau wedi'u llunio gan y Ganolfan
4. Cwblhau Asesiad
5. Sicrhau Ansawdd Asesiad a Phenderfyniadau Graddio
6. Cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr
7. Adolygiadau Mewnol a Chwynion

1. Rolau a Chyfrifoldebau a Dyddiadau Allweddol

Enw	Rôl	Cyfrifoldeb
Helen Jones	Cadeirydd y Llywodraethwyr	- Dal yr Is-bwyllgor polisi a chwricwlwm yn atebol.
Is-bwyllgor Polisi a Chwricwlwm	Llywodraethwyr â chyfrifoldeb penodol am safonau ac asesu	- Dal y Pennaeth yn atebol. - Cymeradwyo Polisi asesu'r ysgol. - Ffurio panel apeliadau i ymateb i apeliadau yn erbyn polisi asesu'r ysgol.
Mrs Jano Owen	Pennaeth Strategol	- Dal MC yn atebol. - Sicrhau ansawdd y polisïau a'r trefniadau - Sicrhau ansawdd, cysondeb, cywirdeb a thegwch GBG. - Sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu'n glir a bod pob unigolyn yn ymwybodol o'u rôl. - Sicrhau bod calendr clir wedi ei lunio o ran asesu, cofnodi ac apelio a bod y calendr hwnnw wedi ei rannu a rhanddeiliaid. - Llunio Datganiad Pennaeth y Ganolfan. - Sicrhau bod cofnodion a thystiolaeth yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn unol â rheolau Diogelu Data. - Ymateb i apeliadau GBG gan gynnwys ADY dros dro ar ran yr ysgol.
Miss Melanie Cooper	Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 (UDRh)	- Dal PMDaPh ac athrawon pwnc yn atebol. - Cydlunio polisïau a sicrhau ansawdd cynlluniau asesu pob adran gyda sylw i'w dilysrwydd, dibynadwyedd a thegwch. - Sicrhau ansawdd, cysondeb, cywirdeb a thegwch GBG. - Cwestiynu unrhyw anghysondebau o ran graddau neu patrymau canlyniadau. - Llunio polisi apelio ac ymateb i apeliadau - Ymateb i apeliadau GBG dros dro ar ran yr ysgol gan gynnwys disgyblion ADY. - Cydlunio polisïau, coladu a sicrhau ansawdd trefniadau asesu pob adran gyda sylw i'w cywirdeb - Llunio calendr o Fawrth i Awst yn amlinellu amseroedd gwahanol gamau o'r broses.

Ysgol Bro Idris: Polisi Asesu a Sicrhau Ansawdd

		<ul style="list-style-type: none"> - Cynnig hyfforddiant ac arweiniad i adrannau ble bo angen - Rhannu gwybodaeth am hyfforddiant allanol. - Sicrhau ansawdd yr asesiadau ar dystiolaeth ar system SIMS a helpu PMDaPh i addasu pwysoli a ffiniau marciau yn ôl yr angen. - Paratoi dogfennaeth i ddisgyblion a rhieni.
Miss Eirian Hoyle	Swyddog Arholiadau	<ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod PMDaPh yn cofrestru disgyblion yn gywir ac ar amser ar gyfer y gwahanol gymwysterau. - Sicrhau bod adrannau yn mewnbynnu graddau'n gywir ac ar amser. - Rhoi gwybodaeth i'r staff dysgu ar roi ystyriaeth arbennig nad yw'n digwydd yn yr un modd ag mewn blynyddoedd blaenorol.
Mrs Llinos Lloyd Hughes	CADY	<ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod adrannau yn ymwybodol o unrhyw drefniadau arbennig sydd ei angen ar ddisgyblion. - Cynorthwyo adrannau wrth weinyddu trefniadau arbennig, e.e. trefnu darllenwyr a gliniaduron. - Ymateb i apeliadau GBG ar sail ADY ar ran yr ysgol
Miss Melanie Cooper a Mrs Awel Davies	Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 ac Annogwr dysgu Ffes 3	<ul style="list-style-type: none"> - Rhoi gwybodaeth i athrawon a'r UDRH am unrhyw amgylchiadau arbennig allai fod wedi effeithio ar gyrhaeddiad disgybl.

<p>LO DMJ HC MJ CL RJ MW AMTD GR OJ DJ FfPJ CJ AC GE CW JL</p>	<p>PMDaPh ac Athrawon Pwnc</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cynllunio trefniadau asesu o fewn eu pwnc gan sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Fframweithiau Asesu, calendr a pholisïau'r ysgol. - Cyfathrebu'r trefniadau gyda UDRH a disgyblion. - Sicrhau cysondeb a thegwch ar draws eu hadrannau. - Dal athrawon yr adran yn atebol am asesiadau eu dosbarthiadau. - Gofalu bod gan yr adran dystiolaeth ddigonol i gefnogi asesiadau. Coladu tystiolaeth i mewn i 'broffil disgybl' ar gyfer pob disgybl. - Sicrhau bod gwaith disgyblion yn cael ei storio'n ddiogel. - Darparu tystiolaeth yn ôl y gofyn mewn achos o apêl.
	<p>Athrawon Pwnc</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cynllunio ac asesu yn ôl trefniadau eu hadrannau, calendr a pholisïau'r ysgol. - Sicrhau bod trefniadau arbennig yn cael eu gweinyddu. - Sicrhau fod asesiadau yn cael eu mewnbynnu i system ganolog SIMS yr ysgol.

- **Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr** yn gofyn i'r Corff Llywodraethu llawn gymeradwyo'r polisi hwn, a'i gorffori yn nogfennau polisi yr ysgol.
- **Bydd y Pennaeth Strategol a'r Uwch Dim Rheoli yn** sicrhau bod yr holl asesiadau GBG a'r prosesau cysylltiedig, yn cael eu rheoli'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu Polisi'r Ganolfan, y broses lle bydd yr asesiadau yn digwydd: casglu'r holl ddata perthnasol yn briodol a'r holl brosesau Sicrhau Ansawdd. Byddant yn sicrhau bod lles pob dysgwr yn ganolog i'r broses, yn rhoi gwybodaeth i rieni a dysgwyr drwy gydol y broses, ac yn rhoi unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i staff. Bydd aelodau'r Tim Arweinyddiaeth yn sicrhau ansawdd y graddau a ddyfernir i sicrhau cysondeb deilliannau a sicrhau eu bod yn unol â'r graddau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd a fu.
- **Bydd y Cydlynnydd Anghenion Ychwanegol (CADY)** yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau mynediad angenrheidiol, ac addasiadau rhesymol i ddysgwyr sydd â'r hawl i'r rhain. Bydd y CADY hefyd yn cydlynu'r

ddarpariaeth cymorth ychwanegol, fel y bo angen ac yn briodol.

- **Penaethiaid Cynorthwyol Ffes 3 a Phenathiaid Maes Dysgu a Phrofiad (PMDaPh)** Bydd PMDaPh yn gweithio'n agos gyda'u Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 i sicrhau bod asesiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi a'r canllawiau (gan gynnwys darparu trefniadau mynediad). Bydd hyn yn cynnwys paratoi dysgwyr, casglu a chofnodi marciau, cadw asesiadau yn ddiogel a dilyn y broses Sicrhau Ansawdd fel y'i disgrifir yn y ddogfen hon. Bydd y PMDaPh ac athrawon pwnc yn llunio cynllun asesu pynciol addas (*Cyfeiriwch at Atodiad 2*). Bydd PMDaPh ar y cyd ag athrawon dosbarth, yn adnabod unrhyw wrthdaro mewn budd, ac efo arweiniad gan Gyd-Bwyllgor Arholiadau Cymru (CBAC). Bydd y PMDaPh a Phenath Ffes 3 yn adnabod ac yn darparu ar gyfer unrhyw anghenion hyfforddiant sydd gan staff sy'n ymwneud â'r asesiadau.
- **Bydd staff dysgu** yn gweithio dan gyfarwyddyd eu Pennaeth Ffes 3 a PMDaPh i sicrhau eu bod nhw'n dilyn y polisi hwn a'r cynllun asesu pynciol perthnasol. Bydd eu gwaith yn cynnwys paratoi dysgwyr, cynnal yr asesiadau, gan ofalu bod y dysgwyr hynny sydd â hawl i drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu hawl a marcio a sicrhau ansawdd o fewn yr amserlen a osodir. Bydd athrawon yn cadw'r holl dystiolaeth y bydd gradd dysgwr wedi'i seilio arni, gan gynnwys copiâu o waith y dysgwr ac unrhyw gofnodion marcio. Byddant yn sicrhau bod y dystiolaeth hon wedi'i storio'n ddiogel ar ffurf 'proffil disgybl'. Bydd angen y dystiolaeth hanfodol hon i gefnogi'r broses sicrhau ansawdd ac apelio.
- **Bydd y Swyddog Arholiadau** yn rheoli gweinyddiad y Cymwysterau a'r Graddau a Bennir gan y Ganolfan, gan gynnwys cydlynu gwaith casglu cofrestriadau dysgwyr i'r cymwysterau priodol, yn ogystal â chefnogi staff dysgu a thîm arweinyddiaeth yr ysgol. Bydd y Swyddog Arholiadau yn rhoi gwybodaeth i'r staff dysgu ar roi ystyriaeth arbennig nad yw'n digwydd yn yr un modd ag mewn blynyddoedd blaenorol. Dyfernir ystyriaeth arbennig (*Cyfeiriwch at Atodiad 1*) drwy ddewis gwaith a gwblhawyd pan nad oedd yr amgylchiad arbennig yn effeithio ar y dysgwr.

Dyddiadau Allweddol

Dyddiad:	Gweithred:
8/3/21	Pob pwnc i gyflwyno eu cynllun asesu pwnc.
8/3/21 - 19/3/21	PMDaPh ac athrawon pwnc i gyfarfod efo Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 i gymeradwyo cynlluniau asesu pwnc.
22/3/21	Cyfarfod llywodraethwyr llawn i gymeradwyo'r Polisi Asesu a Sicrhau Ansawdd.
22/3/21	Cyfarfod staff uwchradd llawn i gyflwyno'r polisi. Hyfforddiant CBAC.
22/3/21	Ysgolion Meirionnydd yn cyfarfod i gyflwyno a thrafod eu polisiau.
25/3/21	Cyflwyno polisi i CBAC.
25/3/21	Rhannu cynlluniau asesu pwnc ac amserlen assesuadau gyda: Disgyblion (gwasanaeth a chopi papur o'r amserlen) Rhieni (cyfarfod ar-lein).
12/4/21	Adborth gan CBAC ar y polisi.
22/4/21	Cyflwyno cofrestrïadau arholiadau
19/4/21	Hyfforddiant CBAC i staff.
26/4/21	Hyfforddiant CBAC i staff.
10/5/21	Hyfforddiant CBAC i staff.
17/5/21	Hyfforddiant CBAC i staff.
28/5/21	Athrawon yn casglu tystiolaeth o gyrhaeddiad pob disgybl.
07/6/21 - 16/6/21	Safoni mewnol o fewn yr ysgol.
9/6/21 - 16/6/21	Safoni allanol gydag ysgolion Meirionnydd.
16/6/21	GBG dros dro yn cael eu rhannu efo'r UDRh.
18/6/21	GBG dros dro yn cael eu rhannu efo'r disgyblion. Cyfnod apelio ar agor i ddisgyblion a rhieni.
25/6/21	Cyfnod apelio wedi cau i rieni a disgyblion.
29/6/21	Gwirio a chadarnhau GBG yn dilyn y broses apelio.
2/7/21	GBG dros dro yn cael eu cyflwyno i CBAC.

2. Cynlluniau Asesu Pynciol (atodiad 2)

Bydd pob pwnc yn cynhyrchu cynllun asesu pynciol sy'n amlinellu sut y dyfernir graddau. Bydd hyn yn cynnwys y dystiolaeth i'w defnyddio, y ffordd y dyfernir graddau, dyddiad asesiadau arfaethedig a methodoleg yr asesu. Bydd hyn yn cynnwys lefel y rheolaeth a pha drefniadau sicrhau ansawdd fydd ar waith i sicrhau cysondeb a thrylwyrdd. Bydd gan bob pwnc fynediad at ddogfennaeth pwysig megis Fframweithiau Asesu CBAC a dogfennaeth sy'n amlinellu unrhyw addasiadau i'w unedau ar wefan ddiogel CBAC.

Ym mhob cynllun asesu pynciol, amlinellir hefyd sut y bydd trefniadau mynediad a materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn cael sylw.

Yn y cynllun asesu pynciol, bydd PMDaPh yn nodi pa asesiadau y byddant yn eu defnyddio a sut y sicrheir ansawdd y deilliannau. Sicrheir ansawdd ar lefel adrannol ac arweinyddol.

Y Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 (rhan o'r UDRh) fydd yn sicrhau ansawdd cynlluniau asesu pynciol ac yn cymryd cyfrifoldeb am gysondeb y cynlluniau hyn ar draws y ganolfan. Bydd y Pennaeth Ffes 3 yn ystyried i ba raddau mae pob cynllun yn cyrraedd gofynion y fframweithiau a'u tegwch o ystyried amgchiadau'r ysgol a grwpiau penodol o ddysgwyr. Bydd cyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnal gyda PMDaPh ac athrawon pwnc i drafod a datblygu'r cynlluniau hyn. Bydd Pennaeth y Ganolfan yn gwirio ansawdd yr holl gynlluniau a gweithdrefnau.

Wrth bennu gradd, gellir defnyddio'r mathau hyn o dystiolaeth ym mhob cymhwyster:

Cwestiynau o gyn bapurau wedi'u haddasu.

Bydd y Ganolfan yn defnyddio cyn bapurau CBAC wedi'u haddasu wrth osod tasgau i helpu bennu gradd i bob cymhwyster. Aethpwyd ati eisoes, yn allanol, i sicrhau ansawdd cyn bapurau wedi'u haddasu; maent wedi'u cefnogi'n llawn gan gynlluniau marcio ac maent yn gyfarwydd i'r dysgwyr a'r staff.

Bydd athrawon yn sicrhau bod y cyn bapurau hyn wedi'u corffori'n briodol yn y dysgu a'r addysgu yn lle gweithgareddau eraill a wneir mewn gwersi.

Asesiadau di-arholiad

Mae asesiadau di-arholiad (neu 'waith cwrs') yn rhan o lawer o gymwysterau ar hyn o bryd. Bydd athrawon yn defnyddio perfformiad dysgwyr yn yr elfen hon i helpu gyfrannu tuag at bennu gradd. Er hynny, bydd angen i athrawon ystyried pwysiad yr elfen hon i sicrhau bod y radd a ddyfernir yn dryw i'r safon gyffredinol.

Efallai mai'n rhannol y bydd maes pynciol wedi cwblhau gweithgaredd asesiad di-arholiad. Ni fydd hynny'n golygu na ellir ei ddefnyddio i bennu gradd.

Tystiolaeth arall a fydd yn cyfrannu

- a) **Cyn bapurau CBAC wedi'u cwblhau o'r blaen** - Gall athrawon ddefnyddio tystiolaeth o hen bapurau CBAC sydd wedi'u cwblhau o'r blaen, y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau'n allanol ac wedi'u cyhoeddi efo cynllun marcio wedi ei gymeradwyo ac wedi'u cwblhau o dan amodau wedi'u rheoli'n briodol.
- b) **Asesiadau a wnaed cyn cyhoeddi dull gweithredu CBAC** - Gellir defnyddio'r math hwn o dystiolaeth, er enghraifft ffug arholiadau, i gadarnhau barn ond **nid o reidrwydd** i bennu barn. Y rheswm am hyn yw na fyddai dysgwyr wedi bod yn ymwybodol, adeg ei gwblhau, y byddai angen y darn gwaith hwn i bennu eu gradd. Mae hyn er mwyn sicrhau tegwch a chydaddoldeb i bob dysgwr.

Bydd nifer y darnau tystiolaeth fydd eu hangen i bennu gradd yn amrywio i bob cymhwyster.

Bydd athrawon yn sicrhau bod digon o gyfle i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth glir i ddangos cymhwysedd yn erbyn y themâu allweddol mewn cymhwyster. Nodir y themâu allweddol yn fframweithiau pynciol CBAC.

Bydd rhaid i feysydd pynciol sy'n penderfynu creu eu hasesiad eu hunain, ymgynghori a'r Pennaeth Ffes 3 (UDRh) yn y lle cyntaf, ar ôl darllen Canllaw i Greu Asesiadau CBAC.

Bydd angen i staff pynciol hefyd dystiolaethu bod hyfforddiant ar-lein CBAC priodol wedi'i gwblhau.

Ni fydd y dystiolaeth a gynhrychir yn cael ei chwblhau ar ffurf arholiad h.y. yn y Neuadd efo archwilwyr allanol.

Er mwyn sicrhau cysondeb, bydd pob pwnc yn dilyn yr un dulliau asesu ar draws y dosbarthiadau os nad oes rheswm da i beidio. Mae hyn yn cynnwys cysondeb yn y deunydd asesu, amseru ac amodau asesiadau a chynlluniau marcio. Mae hyn wedi ei nodi ym mhob cynllun asesu pwnc.

3. Asesiadau wedi'u llunio gan Ganolfannau

Os bydd maes pynciol yn penderfynu defnyddio asesiad wedi'i lunio gan ganolfan, yna dylent drafod goblygiadau hyn yn gyntaf oll ac amlinellu eu cynlluniau i'r Pennaeth Ffes 3l. RHAID i weithgareddau fodloni'r holl feini prawf asesu a chyfeirio'n ofalus at Ganllaw i Greu Asesiadau Canolfan CBAC.

Dylai staff dysgu hefyd nodi eu presenoldeb mewn sesiynau hyfforddiant CBA ar-lein.

Arweinir staff i ddefnyddio'r deunyddiau asesu safonedig (SAMs) ble'n bosib.

4. Cwblhau Asesiad

Bydd meysydd pynciol yn nodi methodoleg yr asesu yn eu cynlluniau asesu pynciol.

Rhaid i hyn gynnwys:

- Ble bydd yr asesu yn digwydd.
- Lefel y rheolaeth.
- Natur a hyd yr asesu.
- Trefniadau mynediad.

Rhoddir digon o rybudd i ddysgwyr am asesiadau a chânt wybod pa destunau y rhoddir sylw iddynt. Ni roddir yr asesiad i'r dysgwyr o flaen llaw. Rhoddir yr un amser i ddysgwyr gwblhau asesiad â'r amser a gânt mewn cyfres safonol e.e. 45 munud i gwblhau traethawd. Byddant hefyd yn cael yr un mynediad at ddeunyddiau adnodd yr un fath â chyfres safonol (h.y. deunyddiau sain/gweledol; testunau heb eu hanodi). Dywedir wrth y dysgwyr na chânt ddefnyddio ffonau symudol na'r rhyngwyd oni bai bod angen hyn i wneud yr asesiad.

Nid oes rhaid i'r ganolfan gynnal gweithgarwch asesu mewn un sesiwn - fel papur arholiad. Gall staff rannu deunyddiau asesu i gyd-fynd â'r rhaglen ddysgu. Ar gyfer dysgwyr sydd â threfniadau mynediad wedi'u cymeradwyo, byddant yn cael eu hamser ychwanegol i gwblhau'r tasgau asesu.

Er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr, rhaid i'r ysgol fod yn hyderus mai gwaith y disgybl ei hun yw'r gwaith. Dywedir wrth y dysgwyr am y rheoliadau ynghylch camymddygiad cyn gwneud unrhyw asesiad. Bydd pob dysgwr yn arwyddo dogfen i gadarnhau mai eu gwaith nhw sy'n cael ei gyflwyno.

Bydd dysgwyr yn cwblhau gwaith asesu yn benodol ar gyfer Graddau a Bennir gan y Ganolfan yn annibynnol, dan yr un lefelau rheolaeth â'r rheiny a ddefnyddia athrawon ar gyfer trefniadau sydd eisoes yn bod, fel Asesiad di-Arholiad.

Dylai athrawon ystyried yn ofalus os yw lefelau rheolaeth yn cael eu newid yn ystod Asesiad di-arholiad, y gellir cwblhau'r darn gwaith hwnnw heb y lefel arferol o oruchwyliaeth. Mae angen iddynt ddangos sut y gellir gwneud cymariaethau rhwng gwaith sydd wedi'i oruchwyllo a gwaith sydd wedi'i gwblhau heb oruchwyliaeth.

Ble bynnag bosibl, cwblheir gwaith yn y dosbarth ac yn lle gweithgareddau dosbarth arferol. Efallai bydd achlysuron ble mae agen cwblhau gwaith gartref e.e. os bydd cyfnod clo cenedlaethol neu os bydd rhaid hunan ynysu.

Bydd yr ysgol yn cyflwyno mesurau lliniaru ychwanegol bryd hwnnw i sicrhau, cyn belled â phosibl, mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith.

Bydd yr ysgol hefyd yn ystyried gwaith mae'r dysgwr wedi'i gynhyrchu yn erbyn

gwaith wedi'i asesu'n flaenorol i wirio dilysrwydd; mae hyn yn arbennig o berthnasol ble fydd tystiolaeth a gyflwynir yn annodweddiadol o'r safon arferol a welir gan y dysgwyr. Gall staff gynnal rhagor o weithgareddau efo dysgwyr er mwyn penderfynu ai gwaith y dysgwyr ei hun yw'r gwaith e.e.sesiwn cwestiwn ac ateb efo'r dysgwyr neu weithgaredd asesu ychwanegol.

Caiff asesiadau eu cwblhau, cyn belled â phosibl, ar yr un pryd mewn pwnc. Bydd dysgwyr sy'n absennol adeg asesiad yn y dosbarth yn cael cyfle arall i wneud yr asesiad, ond bydd trefniadau amgen yn cael eu gwneud.

Bydd yr athro dosbarth yn cofnodi holl ganlyniadau'r asesiadau. Ni chaiff dysgwyr y cyfle i wella'u gwaith.

Ni fydd staff unigol y pwnc yn rhannu penderfyniadau yn ymwneud â'r radd a ddyfernir gan gynnwys marciau asesiadau unigol â'r myfyrwyr ac/na rhieni, hyd nes y dyddiad ym mis Mehefin.

Bydd gofyn i bob dysgwyr arwyddo dogfen i nodi dilysrwydd eu gwaith ar ddiwedd y cyfnod asesu.

Yn unol â pholisïau parod mewn perthynas ag Arholiadau Cyhoeddus ac Asesiad dan Reolaeth, bydd y Ganolfan yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Bydd y Ganolfan yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheoliadau diogelu data a phrosesu data.

Asesiadau o bell

Tra'i bod yn dderbyniol ystyried asesiadau a wnaethpwyd gartref wrth bennu gradd, ni ddylid gorddibynnu arnynt. Dylid ystyried unrhyw amodau / amgylchiadau allai amharu ar allu'r disgybl i gwblhau'r asesiad adref, e.e. amodau cartref, mynediad i dechnoleg, trefniadaeth mynediad.

Dylai canlyniad unrhyw asesiad o bell gael ei gymharu a pherfformiad y disgybl yn yr ysgol. Os oes gwahaniaeth arwyddocaol, dylid ymchwilio ymhellach neu ddiystyru'r asesiad.

Dylai staff fonitro dilysrwydd gwaith pob disgybl, e.e. drwy ddefnyddio offeryn Google Classroom sydd yn nodi achos o len-ladrad neu ateb sy'n cyfateb yn rhy agos i gynllun marcio CBAC.

Ysgol Bro Idris: Polisi Asesu a Sicrhau Ansawdd

Dylid sicrhau amser addas i gwblhau'r gwaith. Ni chaniateir ailddrafftio profion a thasgau asesu. Bydd tystiolaeth asesiadau o bell yn cael eu cadw yn Google Classroom.

5. Sicrhau Ansawdd Asesiad a Phenderfyniadau Graddio.

Asesu gwaith

Cyfrifoldeb pob athro sy'n dysgu'r pwnc ar y lefel berthnasol fydd asesu'r gwaith. Bydd athro pynciol yn asesu gwaith y myfyrwyr yn eu dosbarth, gan farcio efo beiro GOCH a chynlluniau marcio priodol CBAC i gynorthwyo wrth ddyfarnu graddau manwl gywir. Bydd yr athro pynciol yn cofnodi'r marc a'r radd a ddyfernir gan ddefnyddio amodau diogel a sicrhau bod copiâu ffisegol o dystiolaeth yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel.

Bydd meysydd pynciol yn gofalu bod gan staff dysgu ddealltwriaeth gyffredin a chytûn o'r cynlluniau marcio. Darperir cyfleoedd am hyfforddiant ar lefel pwnc er mwyn hwyluso'r gwaith marcio.

Penderfyniadau Graddio Terfynol

Ar gyfer pob cymhwyster, bydd athrawon yn defnyddio fframweithiau asesu pynciol CBAC a fydd yn cynnwys disgrifyddion ar gyfer graddau allweddol. Rhaid i dystiolaeth gadarn fod yn sail i bob gradd a ddyfernir gan yr ysgol.

Ni chaniateir i athrawon pwnc roi Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan ar sail rhagdybiaeth broffesiynol na photensial dysgwr yn y pwnc hwnnw. Bydd gofyn i athrawon ddefnyddio'u barn broffesiynol a phenderfynu a yw'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangosir gan ddysgwr yn bodloni'r safon arferol ar gyfer y radd.

Penderfynir ar raddau yn holistaidd ond rhaid i dystiolaeth o gyrhaeddiad mewn meysydd y mae'r dysgwr wedi'u cwblhau fod yn sail i raddau.

Nid yw'r safon a ddisgwylir ar gyfer unrhyw radd neilltuol yn ddim is na'r blynyddoedd a fu, ond mae'n anochel y bydd swmp y gwaith a gwblheir yn y fanyleb yn llai. Bydd gofyn i'r ysgol ddefnyddio barnau 'ffit orau' wrth bennu gradd.

Nid oes gofyn i ddysgwyr ddangos pob agwedd ar ddisgrifydd gradd er mwyn ennill y radd. Dylid dyfarnu gradd i ddysgwyr ar sail tystiolaeth ar draws ehangder digonol o gynnwys, fel y nodir gan CBAC. Gellir cyflawni'r un radd drwy ddangos gwahanol gyfuniadau o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Er na fydd pwysidiadau wedi'u rhagnodi, bydd athrawon yn ystyried pwysidiadau amcanion unedau ac asesiadau yn y fanyleb. Ni fydd tystiolaeth o gyflawniad uchel mewn agwedd gul o'r cymhwyster, ar ei phen ei hun, yn cyfiawnhau gradd uchel. Bydd data asesu dysgwr (h.y. perfformiad blaenorol disgybl yn y pwnc hwnnw) yn sail i drafodaethau ynghylch y penderfyniadau a wneir.

Bydd y graddio yn cael ei wneud yn wrthrychol. Bydd barnau yn cael eu cyrraedd

mor deg â phosibl. Caiff staff dysgu hyfforddiant ar y ddeddf cydraddoldeb a thuedd anymwybodol yr wythnos yn cychwyn 22 Mawrth yn ogystal a chyfres o hyfforddiant pellach gan CBAC (Dyddiadau allweddol, Tudalen 8). **Yn ystod y cyfnod asesu rhwng Pasg-Sulgwyn, nodi eu rhif arholiad yn unig fydd y dysgwyr ar eu asesiadau.**

Ble nad oes digon o dystiolaeth, neu ble mae'r dystiolaeth yn llai na'r hynny sydd ei hangen ar gyfer dyfarnu'r radd isaf mewn cymhwyster, yna dyfernir gradd U.

Gan nad yw dysgwyr yn gwneud arholiadau eleni, ni fydd ceisiadau am ystyriaeth arbennig yn berthnasol eleni os bydd dysgwr yn methu gwneud asesiad neu'n mynd drwy rywbeth trawmatig allai effeithio ar eu perfformiad.

Wrth ystyried amgylchiadau arbennig i ddysgwyr, caiff dysgwyr eu graddio ar eu perfformiad yn y cynnwys pynciol maent wedi dysgu amdano. (*Atodiad 1 Ystyriaethau Arbennig*).

Bydd yr ysgol yn dogfennu pob penderfyniad drwy'r cofnod gwneud penderfyniad ar ddysgwr. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r holl dystiolaeth a ddefnyddir i bennu gradd a bydd yn rhoi rhesymeg am y radd a ddyfernir.

Ar y ffurflen hon, rhoddir esboniad clir i helpu rhieni a dysgwyr ddeall y rheswm dros y radd sydd wedi'i dyfarnu. Gall y ffurflen hon fod yn sail i unrhyw ymholiad am apêl.

Sicrhau Ansawdd

Pwrpas safoni mewnol a sicrhau ansawdd yw:

- Rhoi hyder i athrawon yn y Graddau a Bennir gan y Ganolfan y maent wedi'u rhoi,
- Sicrhau tegwch a gwrthrychedd penderfyniadau, a
- Sicrhau cysondeb wrth gymhwyso meini prawf asesu a safonau.
- Datrys unrhyw wahaniaethau ym marn athrawon dros raddau a ddyfernir.

Sicrhau Ansawdd Asesiad

Bydd safoni mewnol yn cynnwys yr holl bobl hynny sy'n gyfrifol am addysgu'r pwnc. Bydd yn cynnwys croesarchwilio'r marcio ar draws ystod lawn y marciau ac yn cynnwys sampl o ddysgwyr o bob dosbarth.

Bydd safoni allanol yn cynnwys gweithio'n agos gydag ysgolion eraill Meirionnydd. Bydd yn cynnwys croesarchwilio'r marcio ar draws ystod lawn y marciau ac yn cynnwys sampl o ddysgwyr o bob dosbarth.

Bydd pob maes pynciol yn pennu maint y sampl ar gyfer cymedroli mewnol. Yr

eithriad i hyn yw ble mae maint carfan yn llai na 10; yn yr achos hwn, caiff y garfan gyfan ei chymedroli'n fewnol.

Bydd meysydd pynciol hefyd yn nodi a oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn digwydd wrth bennu'r sampl gymedroli. Er enghraifft, staff efo'u plentyn y grŵp blwyddyn/maes pynciol neu ddsbarth, neu mewn perthynas ag athrawon yn asesu gwaith eu teulu neu ffrindiau agos.

Bydd PMDaPh ac athrawon pwnc yn sicrhau bod y sampl waith i'w chymedroli yn ymdrin â'r sbectwm llawn o raddau a gwaith gan bob athro sydd wedi paratoi dysgwyr ac asesu'r gwaith. Byddant hefyd yn goruchwyllo unrhyw faterion yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau.

Bydd safoni mewnol hefyd yn sicrhau bod dysgwyr â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y samplu ac wedi'u croesarchwilio (i gydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Anabledd).

Bydd yr holl waith sy'n cael ei samlo yn cael ei farcio'n ddiennw i leihau'r risg o duedd ymwybodol/anymwybodol.

Bydd staff pynciol yn cynnal gweithgareddau cymedroli, cyn cynted ag sy'n rhesymol ac yn ymarferol, unwaith y bydd y dystiolaeth wedi'i chyflwyno.

Ble caiff darn o waith ei gymedroli, gwneir sylwadau ychwanegol gan aelod arall o staff gan ddefnyddio beiro LAS; Bydd y PMDaPh yn adolygu unrhyw anghysondebau, ac yn gwneud sylwadau gan ddefnyddio beiro WERDD.

O ganlyniad i gymedroli mewnol, gall fod angen addasu penderfyniad athro i:

- Gyd-fynd â'r safonau sydd wedi'u gosod a'u deall yn yr arweiniad a ddarparwyd.
- Cysoni barnau gan athrawon eraill yn yr adran.
- Bodloni gofynion mewn perthynas â Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Anabledd

Bydd cofnod o unrhyw amrywiaethau, addasiadau ac ati o ganlyniad i'r broses safoni mewnol.

Sicrhau Ansawdd Penderfyniadau Graddio Terfynol

Bydd pob PMDaPh a'r Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 yn samlo detholiad o gofnodion Gwneud Penderfyniad am Ddysgwr er mwyn gofalu bod y penderfyniadau graddio wedi'u gwneud yn deg ac yn gyson.

Bydd dysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y gweithgarwch samlo hwn. Penderfynir ar faint y sampl gymedroli fel y nodir uchod.

Caiff canlyniadau unrhyw weithgarwch cymedroli a safoni eu dogfennu a'u cadw.

Deilliannau Pynciol

Dylai'r Graddau a Bennir gan y Ganolfan ddangos y safonau cyffredinol a gyflawnwyd yn y pwnc hwnnw dros y blynyddoedd diweddar. Bydd y PMDaPh yn sicrhau bod y graddau a ddyfernir yn unol â'r perfformiad yn y pwnc neilltuol hwnnw dros y blynyddoedd diweddar ac yn rhoi rhesymeg dros unrhyw amrywiad sylweddol.

Bydd y Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 yn cynnal proses Sicrhau Ansawdd arall i sicrhau bod y graddau a ddyfernir yn unol â'r rheiny o gyfres arholiadau allanol flaenorol.

Bydd y Pennaeth Cynorthwyol Ffes 3 yn rhoi perfformiad cyd-destunol at ei gilydd ac gyfer grŵp blwyddyn neilltuol ac yn cyflwyno hwnnw. Gall hyn gynnwys lefelau Cyfnod Allweddol 3, profion Cenedlaethol a data tracio Cyfnod Allweddol 4. Bydd yr wybodaeth hon yn angor i'r data perfformiad.

Cyrsiau Coleg Meirion Dwyfor

Bydd dysgwyr o sefydliadau eraill yn derbyn eu hasesu ochr yn ochr â dysgwyr o'r sefydliad sydd yn darparu (os oes rhai) a bydd y cofnod llawn yr asesu yn cynnwys graddau a'r rhesymwaith ar gyfer bob dysgwr yn cael eu dychwelyd i sefydliad cartref y dysgwyr erbyn 14eg o Fehefin.

Ddylai bod unrhyw apêl yn digwydd trwy'r sefydliad cartref a'i drosglwyddo i'r sefydliad sydd yn darparu a'i ddelio efo gyda'r un broses bydd y darparwr yn derbyn unrhyw apêl gyda dysgwyr eu hunain. Bydd cofnod o'r canlyniadau'r apêl yn cael ei ddychwelyd i'r sefydliad cartref y dysgwyr erbyn 30ain o Fehefin.

6. Cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr

Y flaenoriaeth fydd cynnwys dysgwyr a rhieni a defnyddio cynllun cyfathrebu clir a thryloyw er mwyn rhoi hyder yn y dull a ddefnyddir gan y Ganolfan.

Gweithredir cynllun cyfathrebu rhieni a dysgwyr i roi gwybodaeth ar y meysydd allweddol.

Cyn y Pasg, caiff dysgwyr:

- Drosolwg o broses y Graddau a Bennir gan y Ganolfan.
- Pa wybodaeth fydd athrawon pwnc yn ei hystyried wrth bennu Graddau a Bennir gan y Ganolfan.
- Pwysoliad cymesur pob set o dystiolaeth fesul pwnc.
- Amserlen asesiadau sy'n nodi dyddiadau asesu pob pwnc.
- Yr unedau fydd yn cael eu cynnwys ym mhob asesiad. Nodwch na fydd dysgwyr yn derbyn yr asesiad o flaen llaw.
- Bydd gofyn i ddysgwyr arwyddo dogfen i gadarnhau eu bod wedi derbyn a deall y wybodaeth.
- Bydd yr holl wybodaeth uchod yn:
 - cael ei esbonio ar lafar mewn gwasanaeth gyda phwyslais ar yr asesiadau sydd i ddod.
 - cael ei gyflwyno a'i esbonio i rieni mewn cyfarfod ar-lein.
 - cael ei rannu gyda disgyblion a rhieni drwy ebost Hwb a School Comms.

Unwaith bydd CBAC wedi sicrhau ansawdd Cynllun Asesu'r Ganolfan, caiff y rhieni a'r dysgwyr gopi. Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, bydd hyn hefyd yn nodi:

- Sut mae trefniadau mynediad penodol a pherthnasol ac ystyriaeth arbennig wedi'u bodloni.
- Cofnodi tystiolaeth yn cyfrannu at bennu gradd derfynol eu cymhwyster.
- Y prosesau cymedroli mewnol y bydd y Ganolfan yn eu cwblhau.
- Cofnodi adolygiadau ar gais dysgwyr a deiliant adolygiadau fel hyn (Trefn gwyno).

Ar ôl y Pasg, a thrwy ddysgu ac addysgu pynciol, caiff dysgwyr wybod:

- Angen sicrhau bod yr holl waith a gwblheir mewn gweithgareddau asesu yn waith nhw'u hunain, os nad dyma'r achos yna byddai hyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn.
- Eu hawl i'w 'trefniadau mynediad' arferol os yn briodol.

Rhagwelir y caiff dysgwyr wybod am eu Gradd a Bennir gan y Ganolfan ar y 18/6/21.

7. Adolygiadau mewnol a chwynion

Caiff pob dysgwr wybod am eu hawl i ofyn am adolygiad o'u gradd unwaith y rhoddir graddau dros dro ym mis Mehefin.

- Cam 1: Gall dysgwr ofyn am gael adolygu gradd dros dro cyn cyflwyno i CBAC. Gall hyn arwain at godi neu ostwng gradd. Bydd yr aelod staff a fydd yn cynnal y broses adolygu yn aelod staff gwrthrychol, nid yr athro pwnc perthnasol.
- Cam 2: Unwaith y bydd canlyniadau terfynol wedi'u rhoi ar y diwrnod canlyniadau, gall dysgwyr apelio i CBAC drwy'r ysgol, os teimlir bod barn yn afresymol neu'n wallus. Gall CBAC ostwng neu godi'r radd yn dilyn y broses hon.
- Cam 3: Gall dysgwyr wneud cais am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi gan Cymwysterau Cymru i wirio bod CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

Bydd polisi apêl yn cael ei llunio yn benodol ar gyfer Graddau 2021. Bydd y polisi hwn yn cael ei lunio gan yr UDRH a'i gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Bydd y polisi yn cael ei rannu gyda staff, rhieni a disgyblion ac i'w weld ar wefan yr ysgol. Bydd yr ysgol yn dilyn unrhyw ganllawiau a roddir gan CBAC / CC wrth lunio'r polisi hwn.

Bydd y polisi yn amlinellu sut ac o dan ba amgylchiadau y dylai dysgwr ofyn am adolygiad o'r GBG dros dro ar sail barn neu wall gweithdrefnol. Bydd yn nodi pa gamau y gall y dysgwr ei gymryd pe nad yw'n fodlon a chanlyniad yr adolygiad.

Bydd calendr yr ysgol yn sicrhau bod amser digonol yn cael ei roi i ddisgyblion gyflwyno apêl i'r ysgol **cyn** i raddau gael eu trosglwyddo i CBAC.

Bydd trefniadaeth briodol yn ei lle i ymateb i apeliadau. Bydd y drefn hon wedi'i hamlinellu ym mholisi apêl yr ysgol. Bydd rolau a chyfrifoldebau wedi eu hamlinellu'n glir yn y polisi. Ni chaniateir i unrhyw un sydd wedi gosod y radd GBG sy'n cael ei hadolygu i fod yn gyfrifol am yr adolygiad.

Bydd canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei gofnodi, ei gadw'n ganolog a'r penderfyniad terfynol yn cael ei rannu a'r dysgwr / rhiant cyn gynted ag y bo modd.

Bydd gwybodaeth am drefniadau apelio pellach i CBAC neu CC yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion ar ddiwrnod canlyniadau Awst

ATODIAD 1: Canllawiau ar Ystyriaeth Arbennig ar gyfer Haf 2021

Cyflwyniad

Pwrpas y canllawiau yw rhoi cyngor i staff y Ganolfan ar wneud penderfyniadau ar Raddau a Bennir gan y Ganolfan.

Mae'r canllawiau yn rhoi sylw i gymwysterau wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru:

- TGAU, Safon Uwch ac UG wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru
- Tystysgrifau Her Sgiliau

Ystyriaeth arbennig

Ni fydd y broses o ganolfannau yn cyflwyno ceisiadau am ystyriaeth arbennig i gyrrff dyfarnu yn berthnasol yr Haf hwn.

Gan fod y dystiolaeth yn hyblyg ac yn gallu cael ei theilwra i ymgeisydd unigol yn ôl ymdriniaeth â'r fanyleb, dylid cyfyngu ar achosion o ystyriaeth arbennig. Dylai canolfannau allu dewis gwaith wedi'i gwblhau gan ymgeiswyr ble nad yw amgylchiadau andwyol wedi effeithio arnynt. Ble nad yw hyn yn bosibl, ac y gallai salwch neu anaf dros dro, neu ddigwyddiad arall tu hwnt i reolaeth ymgeiswyr fod wedi effeithio ar eu perfformiad mewn asesiadau a defnyddir i bennu gradd, dylai athrawon ystyried hyn.

Rhaid i'r digwyddiad ymwneud â pherfformiad yr ymgeisydd adeg gwneud yr asesiadau perthnasol sy'n cyfrannu at y radd a bennir gan y ganolfan ac oherwydd digwyddiadau tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Salwch neu ddamwain/anaf dros dro
- Profedigaeth
- Argyfwng domestig
- Y ganolfan ddim yn gweithredu trefniadau mynediad wedi'u cymeradwyo yn flaenorol. Ni fydd ymgeiswyr yn deilwng am ystyriaeth arbennig os bydd y canlynol wedi effeithio ar eu paratodau, neu eu perfformiad yn eu hasesiadau:
- Salwch hirdymor, anabled neu anawsterau eraill oni bai bod y salwch neu'r amgylchiadau yn codi adeg yr asesiad
- Profedigaeth yn digwydd mwy na chwe mis cyn yr asesiad, oni bai bod 'pen blwyddyn' wedi'i gyrraedd adeg yr asesiad neu fod goblygiadau parhaus fel cwest neu achos llys • Canlyniadau methu ufuddhau i reoliadau mewnol y ganolfan.

Ni roddir ystyriaeth arbennig oherwydd bod amser dysgu ac addysgu wedi'i golli. Rhoddir sylw i fethu amser dysgu ac addysgu yr Haf hwn drwy'r dulliau asesu a'r hyblygrwydd a roddir i'r ganolfan yn y cyd-destun a fydd yn cael ei asesu, fel yr amlinellir yn y fframweithiau asesu cymwysterau gan CBAC. Darperir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau gan CBAC ar raddio. Mae graddau a bennir gan ganolfannau wedi'u seilio ar y dystiolaeth a gynhyrchir gan yr ymgeisydd, nid eu

potensial.

Sut i wneud cais am ystyriaeth arbennig

Dylai'r Ganolfan weithredu ystyriaeth arbennig ar lefel asesu drwy roi lwfans o farciau ychwanegol i bob asesiad yr effeithiwyd arno. Mae maint y lwfans yn dibynnu ar amser, natur a graddau'r salwch neu'r amgylchiad arall. Bydd y lwfans mwyaf a roddir yn ddim mwy na 5% o gyfanswm y marciau crai sydd ar gael yn yr asesiad.

Dylid ystyried difrifoldeb yr amgylchiadau a dyddiad yr asesiad mewn perthynas â'r amgylchiadau.

Rhaid i ganolfannau fod yn fodlon bod y mater neu'r digwyddiad wedi cael, neu'n rhesymol debygol o fod wedi cael, effaith berthnasol ar allu ymgeisydd i ddangos ei lefel cyrhaeddiad arferol mewn asesiad.

Ni ellir rhoi ystyriaeth arbennig mewn modd cronol. Er enghraifft, oherwydd trawma diweddar adeg yr asesiad a'r ymgeisydd yn cael salwch feirol. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig am yr anhwylder mwyaf difrifol yn unig.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau y mae'n rhaid iddynt fod yn gymwys adeg yr asesiad. 5% Dyma'r lwfans mwyaf ac fe'i gedwir ar gyfer yr achosion mwyaf eithriadol, fel:

- salwch terfynol rhiant/gofalwr
- marwolaeth aelod o'r teulu agos o fewn dau fis o'r asesiad
- argyfwng/digwyddiad difrifol ac aflonyddol iawn adeg yr asesiad, neu yn agos at adeg yr asesiad.

4% Problemau difrifol iawn fel:

- salwch sy'n bygwth bywyd yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu agos
- llawdriniaeth fawr adeg yr asesiad, neu'n agos at adeg yr asesiad
- clefyd difrifol • marwolaeth aelod o'r teulu estynedig yn ddiweddar iawn
- anaf corfforol difrifol neu barhaol yn digwydd adeg yr asesiad neu'r arholiad • argyfwng/digwyddiad difrifol adeg yr asesiad.

DS Diffinnir 'diweddar iawn' fel o fewn un mis o'r asesiad(au).

3% Categori mwy cyffredin (bydd mwy o achosion yn dod o dan y categori hwn), gan gynnwys: • profiad trawmatig yn ddiweddar fel ffrind agos neu berthynas bell yn marw • salwch diweddar o natur fwy difrifol

- cyflwr genedigol/meddygol difrifol neu gyflwr seicolegol yn codi eto
- torri fraich neu goes
- clefyd ar organ
- trawma ymosodiad corfforol cyn asesiad
- argyfwng/digwyddiad diweddar
- gweld rhywbeth allai beri gofid ar ddiwrnod yr asesiad. DS Diffinnir 'diweddar' fel hyd at bedwar mis cyn yr arholiad(au).

2% Y categori lwfans mwyaf cyffredin - daw'r rhan fwyaf o achosion o dan y categori hwn: • salwch adeg yr asesiad

- coes neu fraich wedi torri yn gwella

- cyfergyd
- effeithiau beichiogrwydd (nid beichiogrwydd fel y cyfryw)
- gofid eithriadol ar ddiwrnod yr asesiad (nid yn unig yn ymwneud â straen yr asesiad).

1% Cedwir am broblemau llai:

- salwch ymgeisydd arall sy'n arwain at darfu yn yr asesiad
- straen neu orbryder sy'n cael ei drin efo meddyginiaeth
- clefyd gwair ar ddiwrnod yr asesiad
- mân darfu yn codi o broblemau gweinyddol

Apeliadau

Fel cyfresi eraill, gellir cyflwyno apeliadau ar sail cais am ystyriaeth arbennig.

ATODIAD 2: Cynllun Asesu Pwnc Haf 2021

Ysgol Bro Idris

Pwnc:				
PMDaPh:				
Athrawon erall sy'n gyrifol am asesu:				
Uned 1: % a threfniadau asesu arferol				
	Rhestr tystiolaeth	Dull Asesu	%	Dyddiad
Nodiadau:				
Pa rannau o'r uned dydan ni ddim yn asesu?				
Rhannu cynlluniau asesu efo rhieni a disgyblion: Bydd gwybodaeth am yr asesiadau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer GBG, pwysoliad a dyddiadau asesu yn cael eu rhannu efo disgyblion a rhieni 24/3/21.				
Unrhyw fanylion perthnasol:				
Sut fydd dysgwyr yn cael eu paratoi ar gyfer yr asesiad?				
Nodwch os ydych wedi ymglyfarwyddo gyda'r dogfennau canlynol (os yn briodol):				Do/Naddo + Enw
Deunyddiau ar wefan CBAC	Addasiadau i gymwysterau ar gyfer 2021			
	Addasiadau i asesiadau di-arholiad Haf 2021			
	Canllaw i greu asesiadau CBAC: canllaw i athrawon i'w cynorthwyo â datblygiad deunyddiau asesu			
Deunyddiau ar wefan ddiogel CBAC fesul pwnc:	Fframwaith Asesu eich pwnc chi.			
	Deunyddiau Asesu a chynlluniau marcio			
	Ffiniau graddau / disgrifiadau gradd			
	Hyfforddiant ac arweiniad pynciol			
Deunyddiau gan Cymwysterau Cymru	Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU sydd wedi'u cymeradwyo			
Dogfennau ysgol	Polisi asesu a sicrhau ansawdd			
Gweinyddu'r asesu				
Sut y byddwch yn hysbysu disgyblion am yr asesiadau?		Dyddiadau pob asesiad rhwng Pasg a Sulgwyn wedi eu rhannu efo MC. MC yn rhannu amserlen asesiadau efo disgyblion, rhieni ac athrawon.		
Pa ddisgyblion sydd â threfniadau mynediad arbennig?				

Ysgol Bro Idris: Polisi Asesu a Sicrhau Ansawdd

<p>Amlinellwch eich prosesau marcio a sicrhau ansawdd</p> <p>Mewnol</p> <p>Allanol</p>	
<p>Sut a pwy fydd yn cadw'r dystiolaeth?</p>	<p>Creu 'proffil disgybl' gyda phob darn o dystiolaeth wedi ei gynnwys.</p> <p>Swyddog arholiadau yn gyfrifol am gadw'r dystiolaeth mewn modd ddiogel.</p>
<p>Beth fydd amodau'r asesiadau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dim defnydd o ffonau symudol na dyfeisiau smart. • Dim mynediad at ffolderi, llyfrau na nodiadau. • Pob disgybl i weithio'n annibynnol, unigol a mewn distawrwydd. • Bydd pob asesiad yn cael ei amseru yn yr un modd ag asesiadau CBAC ond bydd amser yn cael ei roi i 'recap' os yw asesiadau yn cael eu rhannu dros mwy nag un sesiwn. • Mae trefniadau mynediad perthnasol wedi cael eu trefnu gan y CADY.
<p>Llofnod athrawon + PMDaPh</p>	
<p>Llofnod Pennaeth Ffes 3</p>	